Dwr Cymru Billing & Income

Recriwtio ar gyfer	Staff drost dro i'r ganolfan gysylltu bilio ac incwm
Lleoliad	Eastern Business Park, Heol Casnewydd, Llanerwig, Caerdydd
Dyddiad Cychwyn	**6ed o Fedi 2010**
Oriau Gweithio (Wythnosol)	37 awr- Llawn amser
Oriau agor y Ganolfan Gysylltu	8 y.b tan 8 y.h Dydd Llun i Ddydd Gwener, ac 8.30 y.b tan 1.30 y.p Dydd Sadwrn. Rydym yn diddori mewn clywed wrth unigolion sydd yn gallu bod mor hyblyg a sy'n bosib yn ystod y cyfnodau yma.
Tâl yn ôl yr awr	£6.40 am y 12 wythnos gyntaf gan godi i £7.84 wedi hynny
Bonws	Bydd cyfle i ennill **bonws hyd at £640** ar sail presenoldeb. Telir wrth gwblhau'r contract yn llwyddiannus.
Hyd yr Aseiniad	Rhagwelir bydd y swydd am gyfnod o chwe mis

Cyfnod hyfforddi a datblygu
Bydd ein hyfforddwyr mewnol yn darparu cynllun hyfforddi a datblygu trylwyr yn ystod y 4-6 wythnos gyntaf er mwyn helpu unigolion i ddysgu'r sgiliau a gwybodaeth angenrheidiol sy'n ofynnol i'r swydd**.**
Bydd cyfle am hyfforddiant a datblygiad pellach trwyddi draw cyflogaeth, ynghyd â potensial o ennill cymhwyster BTec.
Rydym yn cymryd rhan mewn digwyddiadau elusennol ac yn gefnogwr brwd o elusen Water Aid, felly bydd digon o gyfleoedd i gyfranogi, dysgu sgiliau a mwynhau profiadau newydd.

Sylwer: Ni fydd modd cymryd gwyliau yn ystod 4-6 wythnos hyfforddi. Dylid trafod unrhyw wyliau a drefnwyd yn ystod y chwe mis nesaf adeg y cyfweliad.

Manylion pellach

Mae Dŵr Cymru Billing & Income yn fusnes blaengar sy'n gweithio ar ran Dŵr Cymru Welsh Water. Bydd ein canolfan alwadau'n delio ag ymholiadau cwsmeriaid ac yn casglu taliadau ariannol.

Byddwn yn gweithio ar sail targedau, gan gydbwyso amcanion timau a phersonol gydag amgylchedd gwaith dymunol a chyfeillgar. Eich prif gyfrifoldeb fydd ymateb i ymholiadau a chasglu taliadau'n brydlon.
Rydym yn chwilio am unigolion gyda sgiliau cyfrifiadurol, cyfathrebu, negodi a datrys problemau sy'n mwynhau heriau a thrafod â'r cyhoedd, ac yn barod i weithio'n galed er mwyn cyflawni pob tasg. Dylai ymgeiswyr feddu ar ethos cadarn o weithio mewn timau, gydag agwedd hyblyg a'r gallu (gyda chymorth hyfforddiant) i berfformio ar safon uchel. Bydd y gallu i sgwrsio yn Gymraeg yn fantais, gan ein bod yn cynnal llinell Gymraeg. Bydd profiad o weithio mewn maes casglu arian yn ddymunol ond nid yn hanfodol

---

Mae modd cyrraedd Canolfan Llaneirwg ar wasanaethau trafnidiaeth cyhoeddus o Gaerdydd, Casnewydd a'r ardal gyfagos.

Os oes diddordeb gennych, llenwch ffurflen gais a'i hanfon at job.opportunities@dwrcymru.com neu drwy'r post at Veolia Water Outsourcing Ltd, Adran Adnoddau Dynol, Eastern Business Park, Heol Casnewydd, Llaneirwg, Caerdydd CF3 5WW

Dylai ymgeiswyr anfon ffurflen gais erbyn 18fed o Awst 2010, achos bydd recriwtio yn cychwyn yn syth am y diwrnod cychwyn 6ed o Fedi .

Byddwn yn cysylltu â rhai ymgeiswyr i gynnal cyfweliad ffôn ac os yn llwyddiannus yn eu gwahodd am gyfweliad yn ein swyddfeydd yn Llaneirwg.

Mae Veolia Water Outsourcing Ltd yn gyflogwr cyfleoedd cyfartal.